02-Dec-08

canolfanbydgwaith

Rhan o'r Adran Gwaith
a Phensiynau

Taliad Angladd
o'r Gronfa Gymdeithasol

Help â chost angladd o'r Gronfa Gymdeithasol

- **Darllenwch y llyfryn nodiadau hwn cyn llenwi'r ffurflen gais**

SF200W 10/08

Allwch chi gael help?

1 Gallech gael help â chost angladd os ydych chi, neu'ch partner

- wedi trefnu'r angladd yn y Deyrnas Unedig (DU), ac
- os oedd prif gartref y person a fu farw yn y Deyrnas Unedig pan fu farw
- wedi trefnu'r angladd yn rhywle arall yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir (ond gwiriwch gyda'r Ganolfan Byd Gwaith oherwydd bydd hyn yn dibynnu ar eich amgylchiadau).

Mae *partner* yn golygu

- person rydych yn briod â hwy neu berson rydych yn byw gyda hwy fel petaech yn briod â hwy, neu
- bartner sifil neu berson rydych yn byw gyda hwy fel petaech yn bartneriaid sifil.

Mae'r *Deyrnas Unedig* yn golygu Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Gwledydd yr Ardal Economaidd Ewropeaidd yw Awstria, Cyprus, Denmarc, Deyrnas Unedig, Estonia, Ffrainc, Groeg, Gwlad Belg, Gwlad yr Iâ, Gwlad Pŵyl, Hwngari, Iwerddon, Latfia, Lichtenstein, Lithiwania, Lwcsembwrg, Malta, Norwy, Portiwgal, Sbaen, Slofenia, Sweden, y Ffindir, y Weriniaeth Slofac, y Weriniaeth Tsiec, yr Almaen, yr Eidal a'r Iseldiroedd.

Allwch chi gael help? parhad

2 Ni allwch gael help â chost angladd onid

- ydych chi neu'ch partner yn cael un o'r **budd-daliadau a hawliadau cymhwyso canlynol**
  - Cymhorthdal Incwm
  - Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm
  - Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm
  - Credyd Pensiwn
  - Budd-dal Tai
  - Budd-dal Treth Cyngor
  - Credyd Treth Gwaith sy'n cynnwys elfen anabledd neu anabledd difrifol.
  - Credyd Treth Plant ar raddfa sy'n uwch na'r elfen deuluol.
    O Ebrill 2008 i Ebrill 2009 mae hyn yn golygu cyfradd o Gredyd Treth Plant o £548 neu fwy y flwyddyn, neu £1095 neu fwy y flwyddyn os oes gennych faban dan flwydd oed. Mae'r ffigurau hyn ar gyfer blwyddyn gyfan a byddant yn llai ar gyfer rhan o flwyddyn, neu
- bydd y person sy'n talu treth cyngor lle rydych chi'n byw yn cael Ad-daliad Ail Oedolyn oherwydd eich bod yn cael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm, Credyd Pensiwn neu os yw eich incwm yn isel.

3 Efallai y byddwch yn gallu cael help gyda chostau'r angladd os

- ydych wedi gwneud trefniadau ar gyfer yr angladd, ac
- rydych yn hawlio o fewn y terfynau amser, ac
- rydych yn disgyn i un o'r grwpiau o bobl sydd a hawl i wneud cais (gweler nodyn 4).

Pwy all wneud cais

4 Gallwch gael Taliad Angladd os ydych yn disgyn i mewn i un o'r grwpiau canlynol

- **mae chi oedd partner y person a fu farw pan fuont farw**
  At ddibenion gwneud cais am Daliad Angladd, byddwn yn dal i drin rhywun fel eich partner os oeddech yn briod â hwy, yn bartneriaid sifil neu'n byw gyda hwy fel petaech yn briod â hwy neu bartneriaid sifil, yn union cyn i chi neu iddynt hwy, fynd i fyw yn barhaol mewn cartref gofal. Neu os oeddech yn briod neu'n batneriaid sifil ac yn byw yn yr un cartref gofal
- **roedd y person a fu farw yn blentyn roeddech yn gyfrifol drostynt ac nid oes rhiant absennol (oni bai eu bod yn derbyn un o'r budd-daliadau a restrwyd yn nodyn 2 o'r llyfryn nodiadau hwn pan fu farw'r plentyn neu maent yn un o'r grwpiau a restrir yn nodyn 5),**
- **roeddech yn riant i blentyn marw-anedig**
- **roeddech yn berthynas agos neu ffrind agos i'r person a fu farw ac mae'n rhesymol i chi dderbyn y gyfrifoldeb am gostau'r angladd, o ystyried natur ac amled eich cysylltiad gyda'r person a fu farw.**
  Mae *perthynas agos* yn golygu
  – rhiant, tad-yng-nghyfraith, mam-yng-nghyfraith neu lysdad/lysfam
  – mab, mab-yng-nghyfraith, llysfab neu lysfab-yng-nghyfraith
  – merch, merch-yngnghyfraith, llysferch neu lysferch-yngnghyfraith
  – brawd neu frawd-yng-nghyfraith
  – chwaer neu chwaer-yng-nghyfraith.

Sut i wneud cais

5 Ni allwch gael taliad fel perthynas agos neu ffrind agos i'r person a fu farw os

- **oedd gan y person a fu farw bartner pan fuont farw, neu**
- **mae rhiant, mab neu ferch gan y person a fu farw nad yw**
  - yn derbyn budd-dal cymhwyso (gweler nodyn 2) **neu**
  - yn rhywun oedd wedi ymddieithrio oddi wrth y person a fu farw. Mae *ymddieithrio* yn golygu fod y berthynas rhwng y person a fu farw a'i riant, ei fab neu ei ferch wedi dod i ben. Byddwn yn penderfynu a yw hynny'n berthnasol wrth edrych ar y wybodaeth a rowch i ni ar y ffurflen gais.

  oni bai fod y person yna, ar ddyddiad y farwolaeth

  - o dan 18 oed
  - person ifanc sy'n gymwys ar gyfer dibenion budd-dal plant
  - yn 18 oed neu drosodd ac mewn addysg llawn amser
  - yn derbyn cefnogaeth mewnfudo gan y Gwasanaeth Cynnal Lloches Genedlaethol (NASS)
  - yn aelod llawn o drefn grefyddol
  - yn y carchar neu ysbyty yn syth ar ôl cyfnod ar fudd-dal cymhwyso
  - fel arfer yn byw y tu allan i'r Deyrnas Unedig, **neu**
- **mae perthynas agos (gweler uchod) i'r person a fu farw, oni bai perthynas agos sydd yn un o'r grwpiau eithrio a rhestrir uchod, a oedd mewn cyswllt agos a chi a dim yn derbyn budd-dal cymhwyso** (gweler nodyn 2).

Sut i wneud cais parhad

6 Llenwch ffurflen SF200W *Taliad Angladd o'r Gronfa Gymdeithasol* a ddaeth gyda'r pecyn cais hwn.

Anfonwch hi i'r Ganolfan Byd Gwaith gyda'r holl ddogfennau rydym wedi gofyn i chi amdanynt. Mae'n rhaid i chi wneud cais o fewn 3 mis o ddyddiad yr angladd. Os ydych yn disgwyl am benderfyniad ar fudd-dal neu hawliad cymhwyso, mae'n rhaid i chi barhau i hawlio o fewn y terfyn amser.

Anfonwch

- **bil terfynol y trefnydd angladdau atom cyn gynted ag y byddwch yn ei gael, a'r**
- **ffurflen dull o dalu os rhoddir un i chi.**

Help a chyngor

7 Arweiniad cyffredinol yn unig yw'r wybodaeth yn y nodiadau hyn ar wneud cais am Daliad Angladd o'r Gronfa Gymdeithasol.

Os hoffech siarad â rhywun am Daliadau Angladd, cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith. Gallant drefnu i rywun eich gweld yn eich cartref os bydd angen, neu yn y Ganolfan Byd Gwaith. Cewch hyd i'r rhif ffôn a'r cyfeiriad i'w gweld yn yr hysbyseb yn adran rhifau busnes y llyfr ffôn. Edrychwch o dan **Jobcentre Plus**.

Hefyd gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth ar ein gwefan. Y cyfeiriad yw **www.dwp.gov.uk**

8 Os cewch anhawster i lenwi'r ffurflen gais, gall rhywun arall ei llenwi ar eich rhan. Ond cofiwch, rhaid i chi lofnodi'r ffurflen eich hun. Gall y Ganolfan Byd Gwaith eich helpu i lenwi'r ffurflen neu gallwch ofyn i berthynas, neu ffrind, neu rywun mewn canolfan cynghori.

Yr help y gallwch ei gael

9 Os oedd gan y person a fu farw gynllun angladd wedi ei dalu ymlaen llaw, darllenwch nodiadau 13 i 16. *Cynllun angladd wedi ei dalu ymlaen llaw yw* unrhyw drefniant a wnaed cyn marw i dalu am rai costau angladd neu'r costau i gyd.

10 Wrth drefnu'r angladd, cofiwch ddweud wrth y trefnydd angladdau y byddwch yn gwneud cais am Daliad Angladd o'r Gronfa Gymdeithasol.

11 Gall y Taliad Angladd gynnwys

- cost angenrheidiol o ail-agor bedd neu agor bedd newydd a chostau claddu, neu
- yn achos amlosgiad
  – y ffi angenrheidiol am losgi
  – cost unrhyw dystysgrifau meddyg angenrheidiol
  – cost symud peiriant rheoli curiad y galon neu ddyfais feddygol arall y mae'n rhaid ei symud cyn yr amlosgiad
- cost unrhyw ddogfennau sy'n angenrheidiol i ryddhau asedion y person a fu farw.

  Mae asedion yn golygu holl arian, cynilion ac eiddo'r person a fu farw
- pan fydd angen symud y corff dros 50 milltir yn y Deyrnas Unedig i adeilad y trefnydd angladdau neu dŷ hebrwng, cost rhesymol y rhan honno o'r siwrnai sydd dros 50 milltir
- pan fydd y daith i'r angladd o anghenraid dros 50 milltir, cost y rhan honno o'r siwrnai sydd dros 50 milltir ar gyfer cludo'r arch a'r archgludwyr
- cost siwrnai ddwyffordd angenrheidiol i chi **naill ai**
  – i drefnu'r angladd, **neu**
  – i fynd i'r angladd
- hyd at £700 am unrhyw dreuliau angladdol eraill. Mae'r swm hwnnw'n cynnwys pob cost arall mewn cysylltiad â'r angladd.

Yr help y gallwch ei gael parhad

12 Os oes gennych fil am eitem nad yw wedi ei darparu gan y trefnydd angladdau
Gall hynny fod, er enghraifft, yn flodau. Efallai y gallwn helpu â rheiny os yw'r swm a delir i'r trefnydd angladdau am dreuliau angladdol eraill yn llai na £700.

Cynlluniau talu am angladd ymlaen llaw

13 Rydym angen gwybod os oedd gan y person fu farw

- gynllun talu am angladd ymlaen llaw
  Mae *cynllun talu am angladd ymlaen llaw* yn drefniant a wnaethpwyd cyn marwolaeth er mwyn talu am rhywfaint neu'r oll o gostau angladd
- bond angladd
- unrhyw drefniant rhagdaledig tebyg.

14 Ni allwn helpu ag unrhyw rai o'r eitemau na'r gwasanaethau a restrir yn nodyn 11 o'r llyfryn nodiadau hwn ac sydd eisoes wedi eu cynnwys mewn cynllun talu ymlaen llaw. Ond gallech gael taliad ar gyfer

- cost angenrheidiol unrhyw eitemau a restrwyd yn **nodyn 11** ac nad ydynt wedi eu cynnwys yn y cynllun
- cost rannol angenrheidiol unrhyw eitemau a restrwyd yn **nodyn 11** ac sydd wedi eu cynnwys yn rhannol yn unig yn y cynllun
- hyd at £120 am unrhyw dreuliau angladdol eraill.

Cynlluniau talu am angladd ymlaen llaw parhad

15 Er mwyn i ni allu penderfynu ynglŷn â'ch cais, mae angen i ni wybod beth mae'r cynllun yn ei ddarparu. Anfonwch atom

- gopi o'r cynllun gwreiddiol
- unrhyw ddogfennau rydych wedi eu cael gan ddarparwr y cynllun yn dangos yr eitemau a'r gwasanaethau y mae'r cynllun yn eu darparu ar gyfer yr angladd hwn.

16 Os oedd cynllun talu am angladd ymlaen llaw heb ei dalu'n llawn cyn i'r person farw, bydd angen i ni wybod faint sydd wedi ei ad-dalu neu a gaiff ei ad-dalu gan ddarparwr y cynllun. Anfonwch atom

- gopi o'r cynllun gwreiddiol
- unrhyw ddogfennau rydych chi wedi eu cael gan ddarparwr y cynllun yn dangos y swm sydd i'w ad-dalu.

Ynglŷn ag unrhyw arian y gallech ei ddefnyddio ar gyfer yr angladd

17 Wrth gyfrifo faint o gymorth y gallwch ei gael, byddwn yn edrych hefyd ar faint o arian sydd ar gael i'ch helpu â chost yr angladd. Gallai hynny gynnwys arian o ystâd y person a fu farw. Gallai hynny fod yn

- arian mewn cyfrif banc, cymdeithas adeiladu neu Swyddfa Post®. Gallech ofyn i'r banc neu'r gymdeithas adeiladu dalu bil yr angladd os oes digon o arian yn y cyfrif
- arian o bolisïau yswiriant
- arian o gynllun pensiwn galwedigaethol
- arian o glwb claddu neu rywbeth tebyg
- unrhyw gynilion neu arian parod gan y person a fu farw
- cyfraniadau perthnasau neu elusennau tuag at gost yr angladd.

Ynglŷn ag unrhyw arian y gallech ei ddefnyddio ar gyfer yr angladd parhad

18 Ni fyddwn yn cymryd i ystyriaeth unrhyw gyfandaliad o Daliad Profedigaeth o £2,000 gan nawdd cymdeithasol neu daliadau iawndal gan yr ymddiriedolaethau canlynol a ariennir gan y Llywodraeth

- Ymddiriedolaeth MacFarlane
- Ymddiriedolaeth MacFarlane (Taliadau Arbennig)
- Ymddiriedolaeth MacFarlane (Taliadau Arbennig) (Rhif 2)
- y Gronfa
- Ymddiriedolaeth Eileen
- taliadau'r Adran Iechyd parthed dioddefwyr Clefyd Creutzfeldt Jakob
- Cronfa Skipton
- Y Gronfa Gymorth Elusennol y Bomio yn Llundain.

Sut y byddwn yn eich talu

19 Os gallwn dalu Taliad Angladd i chi ac nid yw bil y trefnydd angladdau eisoes wedi ei dalu, byddwn fel arfer yn talu'n uniongyrchol i mewn i gyfrif banc y trefnydd angladdau. Weithiau, efallai y byddwn yn anfon siec i chi yn daladwy i'r trefnydd angladdau. Os felly, rhowch y siec i'r trefnydd angladdau cyn gynted ag y byddwch yn ei chael.
Anfonwch y ffurflen dull o dalu y trefnydd angladdau i ni os ydych wedi cael un. Os yw bil y trefnydd angladdau wedi ei dalu eisoes byddwn yn eich talu, fel arfer yn uniongyrchol i gyfrif. Rhowch fanylion eich cyfrif i ni yn **Rhan 9** y ffurflen gais.

Ad-dalu Taliad Angladd

20 Bydd yn rhaid ad-dalu Taliad Angladd o'r Gronfa Gymdeithasol o ystâd y person a fu farw. Mae'r gyfraith yn dweud ei bod yn rhaid talu costau angladd cyn talu unrhyw beth arall o'r ystâd.
Mae *ystâd*, yn golygu

- unrhyw asedion fel eiddo, tir, stociau a chyfranddaliadau, cynilion ac unrhyw arian neu arian parod arall sy'n eiddo i'r person a fu farw neu sy'n ddyledus iddo/iddi
- unrhyw arian sy'n dod i'r ystâd ar ôl i'r person farw.

21 Bydd Rheoli Dyled yn ysgrifennu atoch chi neu'r person sy'n gofalu am faterion ariannol y person a fu farw. Byddant yn gofyn a yw'r person a fu farw wedi gadael unrhyw ystâd y gellir ad-dalu'r Taliad Angladd ohoni.
Y rheswm am hynny yw nad oes arian ar gael ar unwaith bob amser i dalu am yr angladd, ond gall fod ar gael yn ddiweddarach. Er enghraifft, gall arian gael ei ryddhau'n ddiweddarach neu gallech ddod ar draws polisi yswiriant na wyddoch amdano.

22 Nid ydym yn cyfrif y cartref sy'n cael ei ddefnyddio gan bartner y person a fu farw, nac eiddo personol sy'n cael ei adael i berthnasau.

Ein safonau gwasanaeth

Yn y Ganolfan Byd Gwaith ein nod yw darparu safon uchel o wasanaeth i gwsmeriaid bob amser. Gellir dod o hyd i fanylion safon y gwasanaeth y gallwch ei ddisgwyl gennym ar ein gwefan yn **www.canolfanbydgwaith.gov.uk**

Gallwch gael mynediad i'n gwefan mewn llawer o lyfrgelloedd.

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith.

Arweiniad cyffredinol yn unig sydd yn y nodiadau hyn ac ni ddylid eu trin fel datganiad cyflawn ac awdurdodol o'r gyfraith.

Taliad Angladd
o'r Gronfa Gymdeithasol

canolfanbydgwaith

Rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau

Ynglŷn â'r ffurflen hon

- Defnyddiwch y ffurflen hon i wneud cais am Daliad Angladd o'r Gronfa Gymdeithasol.
  Cofiwch ddarllen y llyfryn nodiadau cyn llenwi'r ffurflen hon.
- Gellir gwneud unrhyw daliad y gallwch ei gael o ganlyniad i'r cais hwn yn gynt
  - os atebwch bob cwestiwn ar y ffurflen hon sy'n berthnasol i chi a'ch partner, os oes gennych un
  - os anfonwch bob dogfen y gofynnwn amdani atom.
    Os na allwch wneud hyn, cysylltwch â ni, ond efallai y bydd unrhyw daliad y gallwch ei gael oherwydd y cais hwn yn cael ei oedi.
- Cofiwch, mae'n rhaid i chi wneud cais o fewn **3 mis** o ddyddiad yr angladd. Os ydych yn disgwyl am benderfyniad ar fudd-dal neu hawliad cymhwyso, mae'n rhaid i chi barhau i wneud cais o fewn y terfyn amser. Mae *angladd* yn golygu claddedigaeth neu amlosgiad.

Sut rydym yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth

Mae'r wybodaeth rydym yn ei chasglu amdanoch a sut rydym yn ei defnyddio yn dibynnu'n bennaf ar y rheswm dros eich busnes gyda ni. Ond fe allwn ddefnyddio'r wybodaeth ar gyfer unrhyw ddibenion yr Adran, sy'n cynnwys

- budd-daliadau a lwfansau nawdd cymdeithasol
- cynnal plant
- cyflogaeth a hyfforddiant
- polisi pensiynau preifat, a
- cynllunio ar gyfer ymddeol.

Efallai y byddwn yn cael gwybodaeth gan eraill er mwyn gwirio'r wybodaeth rydych yn ei roi i ni ac i wella ein gwasanaethau. Efallai y byddwn yn rhoi gwybodaeth i rai sefydliadau eraill fel y mae'r gyfraith yn caniatáu, er enghraifft er mwyn amddiffyn yn erbyn troseddau.

I gael mwy o wybodaeth am y ffordd rydym yn defnyddio gwybodaeth, ymwelwch â'n gwefan **www.dwp.gov.uk/welsh/privacy.asp** neu gysylltu ag unrhyw un o'n swyddfeydd.

02-Dec-08

Rhan 1 Amdanoch chi a'ch partner

Oes gennych bartner?
Mae *partner* yn golygu
– person rydych yn briod â hwy neu berson rydych yn byw gyda hwy fel petaech yn briod â hwy, neu
– bartner sifil neu berson rydych yn byw gyda hwy fel petaech yn bartneriaid sifil.

Na ☐ Rhowch eich manylion isod.

Oes ☐ Rowch fanylion chi a'ch partner isod.

Os eich partner yw'r person sydd wedi marw, nid oes rhaid i chi ddweud wrthym amdano ef/hi.

	Chi	**Eich partner**
Cyfenw neu enw teuluol	Mr / Mrs / Miss / Ms	Mr / Mrs / Miss / Ms
Unrhyw gyfenwau neu enwau teuluol eraill rydych wedi cael eich adnabod wrthynt neu'n eu defnyddio nawr. Dylech gynnwys eich enw cyn priodi, pob enw priod neu bartneriaeth sifil blaenorol, a phob newid i'r enw teuluol.		
Pob enw arall yn llawn		
Dyddiad geni	/ /	/ /
Cyfeiriad Dywedwch wrthym eich cyfeiriad. Dywedwch wrthym am gyfeiriad eich partner, os yw'n wahanol.	Cod Post	Cod Post
	Llythrennau Rhifau Llythyren	Llythrennau Rhifau Llythyren

Rhif Yswiriant Gwladol (YG)
Mae'r rhif ar eich cerdyn rhif YG, llythyrau ynglŷn â'ch budd-dal neu slipiau cyflog.

Os na wyddoch beth yw'ch rhif YG, a fu un gennych erioed neu a ydych wedi defnyddio un rywbryd?
Na ☐
Do ☐

Rhif ffôn yn ystod y dydd, os ydych am ddweud hynny
Cod Rhif

Beth yw'r rhif hwn? Ticiwch
Cartref ☐ gwaith ☐ symudol ☐ ffacs ☐

At ddefnydd swyddfa yn unig
Dyddiad mewnbwn SFCS
/ /
Rhif y cais
Blaenlythrennau

- Rhowch unrhyw fanylion personol eraill y credwch y dylem wybod amdanynt yn **Rhan 10 Gwybodaeth arall**, er enghraifft, enwau eraill neu gyfeiriadau blaenorol diweddar.

Rhan 2 Ynglŷn â'r sawl a fu farw

- **Dywedwch wrthym am y sawl a fu farw.**

Eu cyfenw

Mr / Mrs / Miss / Ms

Eu dyddiad geni

/ /

Eu henwau eraill yn llawn

Eu cyfeiriad

Cod Post

Dyddiad y buont farw

/ /

Dyddiad yr angladd

/ /

Eu rhif Yswiriant Gwladol (YG)

A fydd yr angladd yn digwydd yn y Deyrnas Unedig (DU)?
Y *DU* yw Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Na ☐
Bydd ☐

Os nad yw'r angladd yn y DU, ym mha wlad y caiff ei gynnal?

Oedd y person a fu farw yn byw yn y DU pan fu farw?
Mae *byw* yn golygu mai yn y DU oedd eu prif gartref

Na ☐
Oedd ☐

A oeddent wedi byw yn y DU am y 5 mlynedd diwethaf?

Na ☐
Oedden ☐

Oes unrhyw un arall wedi gwneud cais am Daliad Angladd ar gyfer y sawl hwn?

Na ☐
Oes ☐ Dywedwch wrthym amdanynt.

Eu henw llawn

Mr / Mrs / Miss / Ms

Eu cyfeiriad

Cod Post

Rhan 3 Ynglŷn a budd-daliadau a hawliadau

- Bydd y cwestiynau yn y rhan hon o'r ffurflen yn dweud wrthym pa fudd-daliadau rydych chi neu'ch partner, os oes un gennych, yn eu cael.

Ydych chi neu'ch partner yn cael Cymhorthdal Incwm neu'n aros i glywed am gais am Gymhorthdal Incwm?

Na ☐

Ydym ☐ Os ydych chi neu'ch partner yn **cael** Cymhorthdal Incwm, ewch i **Ran 4**.
Os ydych chi neu'ch partner yn **aros i glywed** am gais am Gymhorthdal Incwm, atebwch y cwestiwn nesaf.

Ydych chi neu'ch partner yn cael Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm neu'n aros i glywed am gais am Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm?

Na ☐

Ydym ☐ Os ydych chi neu'ch partner yn **cael** Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, ewch i **Ran 4**.
Os ydych chi neu'ch partner yn **aros i glywed** am gais am Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, atebwch y cwestiwn nesaf.

Ydych chi neu'ch partner yn cael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm neu'n aros i glywed am gais am Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm?

Na ☐

Ydym ☐ Os ydych chi neu'ch partner yn **cael** Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm, ewch i **Ran 4**.
Os ydych chi neu'ch partner yn **aros i glywed** am gais am Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm, atebwch y cwestiwn nesaf.

Ydych chi neu'ch partner yn cael Credyd Pensiwn neu yn aros i glywed am gais am Gredyd Pensiwn?

Na ☐

Ydym ☐ Os ydych chi neu'ch partner yn **cael** Credyd Pensiwn, ewch i **Ran 4**.
Os ydych chi neu'ch partner yn **aros i glywed** am gais am Gredyd Pensiwn, atebwch y cwestiwn nesaf.

Ydych chi neu'ch partner yn cael Credyd Treth Gwaith sydd yn cynnwys elfen anabledd neu anabledd difrifol, neu yn aros i glywed am gais am Gredyd Treth Gwaith sydd yn cynnwys elfen anabledd neu anabledd difrifol?

Na ☐

Ydym ☐ Os ydych chi neu'ch partner yn **cael** Credyd Treth Gwaith sydd yn cynnwys elfen anabledd neu anabledd difrifol, ewch i **Ran 4**.
Os ydych chi neu'ch partner yn **aros i glywed** am gais am Gredyd Treth Gwaith sydd yn cynnwys elfen anabledd neu anabledd difrifol, atebwch y cwestiwn nesaf.

Rhan 3 **Ynglŷn a budd-daliadau** parhad

Ydych chi neu'ch partner yn cael Credyd Treth Plant ar gyfradd uwch na'r elfen deuluol, neu yn aros i glywed am gais am Gredyd Treth Plant ar gyfradd uwch na'r elfen deuluol?
O Ebrill 2008 i Ebrill 2009 mae hyn yn golygu cyfradd o £548 neu fwy y flwyddyn, neu £1095 neu fwy y flwyddyn os oes gennych faban dan flwydd oed.

Na ☐
Ydym ☐ Os ydych chi neu'ch partner yn **cael** Credyd Treth Plant ar gyfradd uwch na'r elfen deuluol, ewch i **Ran 4**.
Os ydych chi neu'ch partner yn **aros i glywed** am gais am Gredyd Treth Plant ar gyfradd uwch na'r elfen deuluol, atebwch y cwestiwn nesaf.

Ydych chi neu'ch partner yn cael Budd–dal Tai neu'n aros i glywed am gais am Fudd-dal Tai?

Na ☐
Ydym ☐ Anfonwch y llythyr oddi wrth y cyngor atom sy'n dweud wrthych fod gennych hawl i gael Budd-dal Tai.
Os ydych chi neu'ch partner yn cael Budd-dal Tai, ewch i **Ran 4**.
Os ydych chi neu'ch partner yn **aros i glywed am gais** am Fudd-dal Tai, anfonwch y ffurflen gais hon atom ar unwaith. Cewch lythyr gan y cyngor sy'n dweud wrthych a allwch gael Budd-dal Tai. Anfonwch y llythyr hwn atom cyn gynted ag y gallwch. Atebwch y cwestiwn nesaf.

Ydych chi neu'ch partner yn cael Budd-dal Treth Cyngor neu'n aros i glywed am gais am Fudd-dal Treth Cyngor?

Na ☐
Ydym ☐ Anfonwch y llythyr oddi wrth y cyngor atom sy'n dweud wrthych fod gennych hawl i gael Budd-dal Treth Cyngor. Os ydych chi neu'ch partner **yn cael** Budd-dal Treth Cyngor, ewch i **Ran 4**.
Os ydych chi neu'ch partner yn **aros i glywed am** gais am Fudd-dal Treth Cyngor, anfonwch y ffurflen gais hon atom ar unwaith. Cewch lythyr gan y cyngor sy'n dweud wrthych a allwch gael Budd-dal Treth Cyngor. Anfonwch y llythyr hwn atom cyn gynted ag y gallwch. Atebwch y cwestiwn nesaf.

A yw'r person sy'n talu treth cyngor lle rydych chi'n byw yn cael Ad-daliad Ail Oedolyn ar eich cyfer chi neu'ch partner neu'n aros i glywed am gais am Ad-daliad Ail Oedolyn ar eich cyfer chi neu'ch partner?

Na ☐
Ydyn ☐ Anfonwch y llythyr sy'n dangos bod gan y person sy'n talu treth cyngor hawl i gael Ad-daliad Ail Oedolyn.
Os yw'n **aros i glywed am** gais am Ad-daliad Ail Oedolyn, anfonwch y ffurflen gais hon atom ar unwaith. Byddant yn cael llythyr gan y cyngor sy'n dweud a all gael Ad-daliad Ail Oedolyn. Anfonwch y llythyr hwn atom cyn gynted ag y gallwch.

- **Rhaid i chi gofio anfon atom yr holl ddogfennau rydym yn gofyn amdanynt. Os na wnewch, gall fod oedi gydag unrhyw daliad y gallwch ei gael oherwydd y cais hwn.**
- **Os nad ydych chi neu'ch partner yn cael, neu ddim yn aros i glywed am gais am unrhyw rai o'r budd-daliadau ar dudalennau 3 a 4, ni allwch gael Taliad Angladd o'r Gronfa Gymdeithasol.**

Rhan 4 Ynglŷn â chymryd cyfrifoldeb dros yr angladd

- Mae'n ddrwg gennym os bydd rhai o'r cwestiynau yn y rhan hon yn peri poen i chi. Drwy ateb y cwestiynau mor llawn â phosibl, byddwch yn ein helpu i benderfynu a oes gennych hawl i gael Taliad Angladd ai peidio.

  Cofiwch, gallwch ofyn i ni am gymorth os bydd unrhyw rai o'r cwestiynau hyn yn anodd i'w hateb.

Ydych chi neu'ch partner wedi cymryd y cyfrifoldeb dros drefnu'r angladd?

Na ☐ Ni allwch gael Taliad Angladd o'r Gronfa Gymdeithasol.

Ydym ☐

A yw'r bil am yr angladd yn eich enw chi neu'ch partner?

Na ☐

Ydy ☐

Os ydych wedi ticio **Na**, dywedwch pam mai chi sy'n gyfrifol am dalu'r bil. Er enghraifft, gallai rhywun fod wedi gwneud y trefniadau ar eich rhan oherwydd eich bod yn sâl.

Ydych chi'n gwneud cais am dreuliau am angladd plentyn neu blentyn a aned yn farw?

Na ☐

Ydw ☐ Ewch i **Ran 5**.

Ai'r person sydd wedi marw oedd eich partner oedd yn byw gyda chi pan fu iddynt farw?

Mae *partner* yn golygu

- person rydych yn briod â hwy neu berson rydych yn byw gyda hwy fel petaech yn briod â hwy, neu
- bartner sifil neu berson rydych yn byw gyda hwy fel petaech yn bartneriaid sifil.

At ddibenion gwneud cais am Daliad Angladd, byddwn yn dal i drin rhywun fel eich partner oeddech yn byw â hwy os oeddech yn briod â hwy, yn bartneriaid sifil, neu'n byw gyda hwy fel petaech yn briod â hwy neu'n bartneriaid sifil, yn union cyn i chi neu hwy fynd i fyw mewn cartref gofal. Neu os oeddech yn briod neu'n bartneriaid sifil ac yn byw yn yr un cartref gofal.

Na ☐

Ie ☐ Ewch i **Ran 6**.

Rhan 4 Ynglŷn â chymryd cyfrifoldeb dros yr angladd parhad

A yw partner y person a fu farw yn dal yn fyw?

Na ☐
Ydy ☐ Dywedwch wrthym amdanynt.

Eu henw llawn

Mr / Mrs / Miss / Ms

Eu cyfeiriad

Cod Post

Dywedwch wrthym pam nad yw'r person hwn yn gwneud cais am Daliad Angladd.

Ticiwch i ddangos sut oeddech chi'n perthyn i'r person a fu farw.

- Rwyf yn rhiant iddynt ☐
- Rwyf yn fab iddynt ☐
- Rwyf yn ferch iddynt ☐
- Rwyf yn dad-yng-nghyfraith iddynt ☐
- Rwyf yn fam-yng-nghyfraith iddynt ☐
- Rwyf yn fab-yng-nghyfraith iddynt ☐
- Rwyf yn ferch-yng-nghyfraith iddynt ☐
- Rwyf yn frawd iddynt ☐
- Rwyf yn chwaer iddynt ☐
- Rwyf yn frawd-yng-nghyfraith iddynt ☐
- Rwyf yn chwaer-yng-nghyfraith iddynt ☐
- Rwyf yn lysfam/lystad iddynt ☐
- Rwyf yn lysfab iddynt ☐
- Rwyf yn lysferch iddynt ☐
- Rwyf yn lysfab-yng-nghyfraith iddynt ☐
- Rwyf yn lysferch-yng-nghyfraith iddynt ☐
- Rwyf yn gyfaill agos ☐
- Arall, nodwch ☐

Oedd gan y person a fu farw rieni, meibion neu ferched sy'n dal yn fyw?
Peidiwch â chynnwys unrhyw blant i'r person a fu farw os oes Budd-dal Plant yn dal i gael ei dalu ar eu cyfer.

Na ☐
Oedd ☐

Rhan 4 Ynglŷn â chymryd cyfrifoldeb dros yr angladd parhad

Oedd y person a fu farw wedi gwahanu oddi wrth unrhyw rai o'r rhieni, y meibion neu'r merched sy'n dal yn fyw?
Mae *wedi gwahanu* yn golygu fod y berthynas deuluol wedi chwalu.

Na ☐

Oedd ☐ Rhowch enwau llawn y rhai sydd wedi gwahanu.

Dywedwch wrthym sut y chwalodd y berthynas deuluol.

Oes un o'r rhieni, y meibion neu'r merched sy'n dal yn fyw yn derbyn budd-dal neu hawliad cymhwyso?
Mae Nodyn 2 yn y llyfryn nodiadau a ddaeth gyda'r pecyn cais hwn yn dweud wrthych beth yw'r budd-daliadau cymhwyso.

Na ☐ Dywedwch wrthym isod amdanynt.

Oes ☐ Atebwch y cwestiwn nesaf **yna dywedwch wrthym am y rhieni, meibion neu ferched ar dudalennau 8 i 11.**

Enwau llawn y rhieni, y meibion neu'r merched sy'n dal yn fyw ac nad ydynt yn cael budd-dal cymhwyso.

A ydynt yn un o'r grwpiau yn **nodyn 5** yn y llyfryn nodiadau a ddaeth gyda'r pecyn cais hwn?

Na ☐ **Ydyn** ☐

Na ☐ **Ydyn** ☐

Na ☐ **Ydyn** ☐

Na ☐ **Ydyn** ☐

Os atebwch **Ydyn** i unrhyw rai o'r cwestiynau hyn, efallai y bydd angen i ni ysgrifennu atoch i gael rhagor o wybodaeth.

Oes unrhyw berthnasau agos eraill i'r person a fu farw yn dal yn fyw?
Peidiwch â chynnwys eich hun os ydych yn berthynas agos. Cynhwyswch eich partner os oes gennych un. Mae *perthynas agos arall*, yn golygu

- tad-yng-nghyfraith, mam-yng-nghyfraith neu lystad/lysfam
- mab-yng-nghyfraith, llysfab, neu lysfab-yng-nghyfraith
- merch-yng-nghyfraith, llysferch neu lysferch-yng-nghyfraith
- brawd neu frawd-yng-nghyfraith
- chwaer neu chwaer-yng-nghyfraith.

Na ☐ Ewch i **dudalen 10**.

Oes ☐ Dywedwch wrthym am y perthnasau agos eraill ar **dudalennau 8** i **11**.

Os oes arnoch angen rhagor o le, defnyddiwch ddalen o bapur ar wahân. Cofiwch roi'ch enw llawn a'ch rhif Yswiriant Gwladol (YG) ar unrhyw ddalen o bapur ar wahân a ddefnyddiwch.

Rhan 4 Ynglŷn â chymryd cyfrifoldeb dros yr angladd parhad

	Perthynas agos 1	Perthynas agos 2
Eu henw llawn	Mr / Mrs / Miss / Ms	Mr / Mrs / Miss / Ms
Eu cyfeiriad	Cod Post	Cod Post
Eu perthynas â'r person a fu farw		
Eu dyddiad geni	/ /	/ /
	Llythrennau Rhifau Llythyren	Llythrennau Rhifau Llythyren

Eu rhif Yswiriant Gwladol (YG),
os ydych yn ei wybod.

Mae angen i ni wybod a oedd gennych chi fwy neu lai neu tua'r un faint o gysylltiad â'r person a fu farw â'r perthnasau agos eraill sy'n fyw ac rydych chi wedi dweud wrthym amdanynt. Gallai'ch helpu i egluro'r amgylchiadau wrthym os meddyliwch am eich perthynas eich hun a pherthynas perthnasau eraill â'r person a fu farw, yn y ffyrdd canlynol

- a oeddent yn cadw mewn cysylltiad a pha mor aml
- y math o gysylltiad oedd ganddynt, er enghraifft, drwy ymweld, ar y ffôn neu drwy lythyr
- a oedd cymorth domestig neu ofal yn cael ei roi
- a oeddent yn mynd ar deithiau cymdeithasol neu wyliau gyda'i gilydd
- a oedd y cysylltiad yn gyfyngedig oherwydd gwaith neu gyfrifoldebau domestig
- unrhyw beth arall a all fod yn berthnasol.

Rhan 4 Ynglŷn â chymryd cyfrifoldeb dros yr angladd parhad

	Perthynas agos 3	Perthynas agos 4
Eu henw llawn	Mr / Mrs / Miss / Ms	Mr / Mrs / Miss / Ms
Eu cyfeiriad	Cod Post	Cod Post
Eu perthynas â'r person a fu farw		
Eu dyddiad geni	/ /	/ /
	Llythrennau Rhifau Llythyren	Llythrennau Rhifau Llythyren

Eu rhif Yswiriant Gwladol (YG),
os ydych yn ei wybod.

Mae angen i ni wybod a oedd gennych chi fwy neu lai neu tua'r un faint o gysylltiad â'r person a fu farw â'r perthnasau agos eraill sy'n fyw ac rydych chi wedi dweud wrthym amdanynt. Gallai'ch helpu i egluro'r amgylchiadau wrthym os meddyliwch am eich perthynas eich hun a pherthynas perthnasau eraill â'r person a fu farw, yn y ffyrdd canlynol

- a oeddent yn cadw mewn cysylltiad a pha mor aml
- y math o gysylltiad oedd ganddynt, er enghraifft, drwy ymweld, ar y ffôn neu drwy lythyr
- a oedd cymorth domestig neu ofal yn cael ei roi
- a oeddent yn mynd ar deithiau cymdeithasol neu wyliau gyda'i gilydd
- a oedd y cysylltiad yn gyfyngedig oherwydd gwaith neu gyfrifoldebau domestig
- unrhyw beth arall a all fod yn berthnasol.

Rhan 4 Ynglŷn â chymryd cyfrifoldeb dros yr angladd parhad

Dywedwch wrthym pam rydych chi neu'ch partner, yn hytrach na rhywun arall, yn cymryd cyfrifoldeb dros gostau'r angladd.
Mae angen i ni benderfynu a yw'n rhesymol i chi neu'ch partner gymryd cyfrifoldeb dros gostau'r angladd. Mae angen i ni edrych ar y math o berthynas a oedd gennych chi neu'ch partner â'r person a fu farw.
Er enghraifft

- a oeddech chi neu'ch partner yn cadw mewn cysylltiad â'r person a fu farw
- pa mor aml oeddech chi neu'ch partner yn cadw mewn cysylltiad â'r person a fu farw
- y math o gysylltiad oedd gennych chi neu'ch partner â'r person a fu farw, er enghraifft, drwy ymweld, ar y ffôn neu drwy lythyr
- a oeddech chi neu'ch partner yn rhoi cymorth domestig neu ofal i'r person a fu farw
- a oeddech chi neu'ch partner yn mynd ar deithiau cymdeithasol neu wyliau gyda'r person a fu farw
- a oedd y cysylltiad a oedd gennych chi neu'ch partner â'r person a fu farw yn gyfyngedig oherwydd gwaith neu gyfrifoldebau domestig
- unrhyw beth arall a all fod yn berthnasol.

Rhan 4 **Ynglŷn â chymryd cyfrifoldeb dros yr angladd** parhad

Oes unrhyw rai o'r rhieni, y meibion, y merched neu berthnasau agos neu eu partneriaid yn cael unrhyw rai o'r budd–daliadau neu hawliadau canlynol?

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm
- Credyd Pensiwn
- Credyd Treth Gwaith sydd yn cynnwys elfen anabledd neu anabledd difrifol
- Credyd Treth Plant ar gyfradd uwch na'r elfen deuluol. O Ebrill 2008 i Ebrill 2009 mae hyn yn golygu cyfradd o £548 neu fwy y flwyddyn, neu £1095 neu fwy y flwyddyn os oes gennych faban dan flwydd oed.
- Budd-dal Tai
- Budd-dal Treth Cyngor neu Ad-daliad Ail Oedolyn

Na ☐
Oes ☐ Dywedwch wrthym amdanynt.

Eu henw llawn	Y budd-dal mae ef/hi neu eu partner yn ei gael

Oes unrhyw rai o'r rhieni, y meibion, y marched neu berthnasau agos neu eu partneriaid yn un o'r grwpiau sydd yn nodyn 5 yn y llyfryn nodiadau a ddaeth gyda'r pecyn cais hwn?

Na ☐ Ewch i **Ran 6**.
Oes ☐ Mae'n bosibl y bydd angen i ni ysgrifennu atoch i gael rhagor o wybodaeth.

Rhan 5 **Ynglŷn â bod yn gyfrifol am angladd plentyn**

Ticiwch i ddangos sut roeddech chi'n perthyn i'r plentyn a fu farw

Mam ☐ Tad ☐ Arall ☐ Dywedwch sut

Gafodd y plentyn ei eni'n farw?

Na ☐
Do ☐ Ewch i **Ran 6**.

Oeddech chi'n cael Budd-dal Plant ar gyfer y plentyn a fu farw?

Na ☐
Oeddwn ☐

Os nad oeddech yn cael Budd-dal Plant, dywedwch pam.
Gall hynny fod oherwydd i'r plentyn farw cyn i chi allu gwneud cais.

Rhan 5 Ynglŷn â bod yn gyfrifol am angladd plentyn parhad

Oedd gan y plentyn a fu farw fam neu dad nad oedd yn byw ar yr un aelwyd?

Na ☐ Ewch i **Ran 6**.
Oedd ☐ Dywedwch wrthym amdanynt.

Eu henw llawn

Mr / Mrs / Miss / Ms

Eu cyfeiriad

Cod Post

Eu dyddiad geni

/ /

Eu rhif Yswiriant Gwladol (YG), os ydych yn ei wybod.

Llythrennau Rhifau Llythyren

A ydynt hwy neu eu partner yn cael budd-dal cymhwyso?
Mae **Nodyn 2** o'r llyfryn nodiadau a ddaeth gyda'r pecyn cais hwn yn dweud wrthych beth yw'r budd-daliadau cymhwyso.

Na ☐ Atebwch y cwestiwn nesaf ar y dudalen hon.
Ydy ☐ Pa fudd-dal cymhwyso maent hwy neu eu partner yn ei gael?

Ewch i **Ran 6**.

Os nad ydynt hwy neu eu partner yn cael budd-dal cymhwyso, a oedden nhw wedi gwahanu oddi wrth y plentyn sydd wedi marw?
Mae *wedi* gwahanu yn golygu fod y berthynas deuluol wedi chwalu.

Na ☐
Oedd ☐ Dywedwch wrthym sut y chwalodd y berthynas deuluol.

Ewch i **Ran 6**.

Os **nad** ydynt hwy neu eu partner yn cael budd-dal cymhwyso, a yw yn un o'r grwpiau sydd yn **nodyn 5** yn y llyfryn nodiadau a ddaeth gyda'r pecyn cais hwn?

Na ☐
Ydy ☐ Dywedwch wrthym amdanynt. Mae'n bosibl y bydd angen i ni ysgrifennu atoch i gael rhagor o wybodaeth

Rhan 6 **Ynglŷn â'r angladd**

- Er ni fyddwn yn gallu penderfynu a oes gennych hawl i gael Taliad Angladd nes i chi anfon y bil terfynol am yr angladd, peidiwch ag oedi cyn gwneud cais. Anfonwch eich cais o fewn 3 mis o ddyddiad yr angladd ac anfonwch y bil atom ar wahân cyn gynted ag y gallwch.
- Cofiwch ddweud wrth y trefnydd angladdau eich bod yn gwneud cais am Daliad Angladd ac anfon ffurflen dull o dalu'r trefnydd angladdau atom os rhoddir un i chi.
- Os hoffech gael mwy o wybodaeth am yr help y gallwch ei gael gyda'r Taliad Angladd, gallwch ei gael o unrhyw un o'n swyddfeydd. Cewch hyd i'r rhif ffôn a'r cyfeiriad ar yr hysbyseb yn yr adran rhifau busnes o'r llyfr ffôn. Edrychwch o dan **Jobcentre Plus**. Hefyd gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth ar ein gwefan. Y cyfeiriad yw **www.dwp.gov.uk/welsh**

Enw'r trefnydd angladdau

Eu cyfeiriad

Cod Post

Eu rhif ffôn

Cod Rhif

Allwn ni gysylltu â'r trefnydd angladdau am ragor o wybodaeth?

Na ☐
Gallwch ☐

Oes gennych unrhyw filiau eraill am bethau nad ydynt wedi eu cynnwys yn amcangyfrif neu fil yr angladd?
Er enghraifft, blodau neu dorch.

Na ☐
Oes ☐ Anfonwch y bil neu'r dderbynneb gyda'r ffurflen hon. A darllenwch **nodyn 12** yn y llyfryn nodiadau a ddaeth gyda'r pecyn cais hwn.

Oedd gennych unrhyw gostau teithio i drefnu neu i fynd i'r angladd?
Efallai y gallwn dalu am **naill ai**

- un siwrnai ddwyffordd i drefnu'r angladd,

  neu
- un siwrnai ddwyffordd i fynd i'r angladd.

Na ☐
Oedd ☐ Pam ydych yn gwneud cais am gostau teithio? Ticiwch **un** blwch os gwelwch yn dda.

I drefnu'r angladd ☐
I fynychu'r angladd ☐

Sut deithioch chi?
Er enghraifft, car, bws, trên.

Faint oedd yn rhaid i chi ei dalu? Anfonwch eich tocynnau neu dderbyneb gyda'r ffurflen hon, os ydynt gennych.

/ /

Rhan 6 **Ynglŷn â'r angladd** parhad

Oes gennych unrhyw filiau am ddogfennau sy'n angenrheidiol i ryddhau yswiriant neu arian arall a oedd gan y person a fu farw?
Er enghraifft, tystysgrif farwolaeth lawn.

- **Rhaid i chi anfon atom yr holl ddogfennau rydym yn gofyn amdanynt. Os na wnewch, gallai fod oedi â'r taliad y gallwch ei gael oherwydd y cais hwn.**

Na ☐
Oes ☐ Anfonwch y bil neu'r dderbynneb gyda'r ffurflen hon.

Rhan 7 **Ynglŷn â'r ystâd**

- Mae angen i ni wybod am yr ystâd. Yr ystâd yw arian, cynilion ac eiddo'r person a fu farw. Gelwir hynny weithiau'n asedion.
- Mae angen hefyd i ni wybod pwy sy'n gofalu am y materion ariannol. Y materion ariannol yw asedion a biliau'r person a fu farw.
- Bydd angen i ni wybod hefyd a ydych wedi gwneud cais am grant profiant, llythyrau gweinyddu, neu gadarnhad yn yr Alban. Bydd hynny'n digwydd pan wnewch gais i swyddfa llys i gael dogfen sy'n rhoi caniatâd i chi gasglu unrhyw asedion, talu unrhyw ddyledion sy'n ddyledus a dosbarthu unrhyw asedion sydd ar ôl.

  Byddwch yn gwneud cais am brofiant, neu gadarnhad yn yr Alban, fel ysgutor wedi ei enwebu, os oedd y person a fu farw wedi gwneud ewyllys.

  Byddwch yn gwneud cais am lythyrau gweinyddu, neu gadarnhad yn yr Alban, fel ysgutor-datif, os nad oedd y person a fu farw wedi gwneud ewyllys.

Ydych chi'n gofalu am faterion ariannol y person a fu farw?

Na ☐
Ydw ☐ Ydych chi wedi gwneud cais am grant profiant, llythyrau gweinyddu neu gadarnhad?

Na ☐
Ydw ☐ Ewch i **Ran 8**.

Rhan 7 **Ynglŷn â'r ystâd** parhad

Oes cyfreithiwr wedi gwneud cais am grant profiant, llythyrau gweinyddu neu gadarnhad ar eich rhan?

Na ☐

Oes ☐ Dywedwch wrthym am y cyfreithiwr.

Eu henw

Cyfeiriad

Cod Post

Rhif ffôn, os ydych yn ei wybod

Cod Rhif

- Dylech ddweud wrth eich cyfreithiwr am eich cais am Daliad Angladd. Bydd Rheoli Dyled yn cysylltu â hwy ynglŷn ag unrhyw Daliad Angladd a dalwn i chi.

Os nad ydych eisoes wedi gwneud cais am grant profiant, llythyrau gweinyddu neu gadarnhad, ydych chi'n bwriadu gwneud cais, neu wedi cyfarwyddo cyfreithiwr i wneud cais ar eich rhan?

Na ☐

Ydw ☐

Oes rhywun arall yn gofalu am faterion ariannol y person a fu farw?

Na ☐

Oes ☐ Dywedwch wrthym amdanynt.

Eu henw llawn

Mr / Mrs / Miss / Ms

Cyfeiriad

Cod Post

Rhif ffôn, os ydych yn ei wybod

Cod Rhif

- Dylech ddweud wrthynt am eich cais am Daliad Angladd. Bydd Rheoli Dyled yn cysylltu â hwy ynglŷn ag unrhyw Daliad Angladd a dalwn i chi.

Rhan 8 Ynglŷn ag arian sydd ar gael i chi i dalu am yr angladd

- Os oes unrhyw arian ar gael i helpu i dalu am yr angladd, byddwn yn cymryd hynny i ystyriaeth wrth gyfrif faint o Daliad Angladd y gallwn ei dalu i chi.
- **Yn gyfreithlon, rhaid i unrhyw asedion sydd gan y person a fu farw gael eu defnyddio i dalu'r bil angladd cyn talu unrhyw filiau eraill.**
- Ni fyddwn yn cymryd i ystyriaeth unrhyw gyfandaliad o Daliad Profedigaeth o £2,000 y gallech fod wedi ei gael gan nawdd cymdeithasol neu daliadau o rai o ymddiriedolaethau a ariennir gan y llywodraeth. Gweler nodyn 18 yn y llyfryn nodiadau am restr lawn o ymddiriedolaethau a ariennir gan y llywodraeth.
- **Cofiwch, bydd arian sy'n eiddo i'r person a fu farw weithiau'n cael ei ryddhau i dalu am yr angladd os gwnewch gais amdano.** Gall hynny fod yn berthnasol hyd yn oed cyn rhoi grant profiant neu lythyrau gweinyddu neu gadarnhad yn yr Alban.

Oes unrhyw arian ar gael neu yn ddyledus i chi neu aelod o'ch teulu i dalu am yr angladd?
Atebwch y cwestiynau i gyd.

- Mae *eich teulu* yn golygu partner neu unrhyw blant neu bobl ifanc sy'n gymwys sy'n byw ar eich aelwyd a chithau'n gyfrifol amdanynt.
- Mae *plentyn* yn golygu person o dan 16 oed rydych yn cael Budd-dal Plant ar ei gyfer.
- Mae *person ifanc sy'n gymwys* yn golygu person 16, 17, 18 neu 19 oed rydych yn cael Budd-dal Plant er ei gyfer.

Arian parod yn eiddo i'r person a fu farw	**Na** ☐	**Oes** ☐	Swm	£
Cynilion yn eiddo i'r person a fu farw	**Na** ☐	**Oes** ☐	Swm	£
Arian o bolisi yswiriant	**Na** ☐	**Oes** ☐	Swm	£
Arian o gynllun pensiwn galwedigaethol	**Na** ☐	**Oes** ☐	Swm	£
Arian o glwb claddu	**Na** ☐	**Oes** ☐	Swm	£
Arian a ad-delir o gynllun talu am angladd ymlaen llaw. Gweler **nodiadau 13** i **16** o'r llyfryn nodiadau a ddaeth gyda'r pecyn cais hwn	**Na** ☐	**Oes** ☐	Swm	£
Arian o elusen	**Na** ☐	**Oes** ☐	Swm	£
Arian gan berthnasau	**Na** ☐	**Oes** ☐	Swm	£
Unrhyw arian arall sydd ar gael i dalu am yr angladd	**Na** ☐	**Oes** ☐	Swm	£

Rhan 8 Ynglŷn ag arian sydd ar gael i chi i dalu am yr angladd parhad

Oedd unrhyw rai o gynilion y person a fu farw mewn cyfrif ar y cyd?

Na ☐
Oedd ☐ Beth yw enw cyd-ddeiliad arall y cyfrif?

A yw'r cynilion wedi eu trosglwyddo i ddeiliad arall y cyfrif?

Na ☐
Ydyn ☐ Faint sydd wedi ei drosglwyddo?

£

Oedd gan y person a fu farw gynllun talu am angladd ymlaen llaw
- **a oedd wedi ei dalu'n llawn, ac**
- **sy'n talu am rai neu holl gostau'r angladd?**

Mae **nodiadau 13** i **16** o'r llyfryn nodiadau a ddaeth gyda'r pecyn cais hwn yn dweud rhagor wrthych am gynlluniau talu am angladd ymlaen llaw.

Na ☐
Oedd ☐ Anfonwch y dogfennau a restrir yn **nodiadau 15** neu **16** o'r llyfryn nodiadau a ddaeth gyda'r pecyn cais hwn atom.

Rhaid i chi gofio anfon yr holl ddogfennau y gofynnir amdanynt atom. Os na wnewch, gallai fod oedi â'r taliad y gallwch ei gael oherwydd y cais hwn.

A allwn gysylltu â darparwr y cynllun os bydd angen rhagor o wybodaeth?
Na ☐
Gallwch ☐

Oes unrhyw un wedi gwneud cais am Grant Angladd Pensiwn Rhyfel ar gyfer y person a fu farw?

Na ☐
Oes ☐ Os oes taliad wedi ei wneud, dywedwch wrthym faint.

£

Rhan 9 Gwneud taliadau

Fel arfer byddwn yn gwneud taliad i'r trefnydd angladdau. Ond, os yw bil y trefnydd angladdau eisoes wedi ei dalu byddwn yn gwneud y taliad i chi. Darllenwch **nodyn 9** yn y llyfryn **Nodiadau** yr anfonwyd atoch gyda'r ffurflen gais hon.

Ydych chi eisoes wedi talu bil y trefnydd angladdau?

Na ☐ Ewch i **Rhan 10**.

Ydw ☐ Cwblhewch ran hon o'r ffurflen.

Taliad yn uniongyrchol i gyfrif

Fel arfer byddwn yn talu eich arian yn uniongyrchol i mewn i gyfrif
Gallwch ddefnyddio banc, cymdeithas adeiladu neu ddarparwr cyfrif arall. Bydd nifer o fanciau neu gymdeithasau adeiladu yn eich caniatáu i gasglu arian parod mewn swyddfeydd post.

Sut y byddwn yn eich talu
Byddwn yn dweud wrthych pryd y caiff eich taliad o'r Gronfa Gymdeithasol ei wneud a faint ydyw.

Cael gwybod faint rydym wedi'i dalu i mewn i'r cyfrif
Gallwch wirio eich taliadau ar gyfriflenni eich cyfrif. Efallai bydd eich cyfriflenni yn dangos eich rhif Yswiriant Gwladol (YG) wrth ymyl y taliadau gennym ni. Os credwch fod eich taliad yn anghywir, cysylltwch â'r swyddfa sy'n eich talu ar unwaith.

Os y byddwn yn talu gormod o arian i chi
Mae gennym yr hawl i adennill unrhyw arian a dalwyd i chi nad oes gennych hawl i'w gael. Gallai hyn fod oherwydd y ffordd y mae'r system Taliadau Uniongyrchol yn gweithredu. Er enghraifft, efallai y byddwch yn rhoi gwybodaeth i ni sy'n golygu bod hawl gennych i gael llai o arian ond efallai na allwn newid y swm sydd wedi'i anfon allan eisoes. Os bydd hyn yn digwydd byddwn yn cysylltu â chi yn gyntaf cyn y byddwn yn adennill unrhyw arian.

Beth i'w wneud nawr

- Dywedwch wrthym am y cyfrif yr ydych yn dymuno ei ddefnyddio ar y dudalen nesaf. Drwy roi manylion eich cyfrif i ni rydych yn cytuno i gael eich talu drwy Daliad Uniongyrchol ac yn deall y wybodaeth uchod am gael eich gordalu.
- Os ydych yn bwriadu agor cyfrif, rhowch fanylion eich cyfrif i ni cyn gynted â'u bod gennych.
- Os nad oes gennych gyfrif, ac nid ydych yn bwriadu agor un, ticiwch y blwch a byddwn yn cysylltu â chi. ☐

Dylech barhau i lenwi'r ffurflen a'i hanfon atom nawr.

Ynglŷn â'r cyfrif rydych am ei ddefnyddio

Rhowch fanylion eich cyfrif isod. Mae'n bwysig eich bod yn llenwi POB blwch yn gywir gan gynnwys rhif rôl neu gyfeirnod y gymdeithas adeiladu os oes gennych un. Os byddwch yn rhoi'r manylion cyfrif anghywir i ni gallai eich taliad gael ei oedi neu gallwch golli arian. Gallwch ddod o hyd i fanylion y cyfrif ar eich llyfr siec neu'ch cyfriflenni banc. Os nad ydych yn siwr am y manylion, gofynnwch i'r banc, cymdeithas adeiladu neu ddarparwr cyfrif arall.

Ynglŷn â'r cyfrif rydych am ei ddefnyddio
Gallwch ddefnyddio

- cyfrif yn eich enw chi
- cyfrif ar y cyd, neu
- cyfrif rhywun arall,
  - yn dibynnu ar dermau ac amodau'r cyfrif, a
  - cyn belled y bod gennych ganiatâd y person arall ac yn eu hawdurdodi hwy i ddefnyddio'r arian yn y ffordd rydych yn ei ddweud wrthynt.
- Os ydych yn Benodai neu gynrychiolydd cyfreithiol yn gweithredu ar ran y cwsmer, dylai'r cyfrif fod yn eich enw chi yn unig.
- I gael eich talu i mewn i gyfrif undeb credyd mae'n rhaid i chi ddarparu manylion cyfrif yr undeb credyd. Gall eich undeb credyd eich helpu gyda hyn.

Enw deiliad y cyfrif
Ysgrifennwch enw deiliad y cyfrif yn union fel y mae i'w weld ar y llyfr siec neu gyfriflen.

Enw llawn y banc, cymdeithas adeiladu neu ddarparwr cyfrif arall

Cod didoli
Rhowch bob un o'r chwe rhif, er enghraifft: 12-34-56.

Rhif y cyfrif
Mae'r mwyafrif o rifau cyfrif yn 8 rhif o hyd. Os oes gan eich cyfrif lai na 10 rhif, llenwch y rhifau i mewn o'r chwith.

Os ydych yn defnyddio cyfrif cymdeithas adeiladu efallai y bydd yn rhaid i chi ddweud wrthym y rhif rôl neu gyfeirnod. Gall gynnwys llythrennau a rhifau a gall fod hyd at 18 llythyren neu rif o hyd. Os ydych yn ansicr p'un a oes gan y cyfrif rif rôl neu gyfeirnod, gofynnwch i'r gymdeithas adeiladu.

Rhif rôl neu gyfeirnod cymdeithas adeiladu

Efallai eich bod yn cael budd-daliadau a hawliadau eraill na chânt eu talu'n syth i mewn i gyfrif. Ticiwch y blwch er mwyn iddynt gael eu talu i mewn i'r cyfrif uchod.

Rhan 10 Gwybodaeth arall

- **Defnyddiwch y gofod yma i nodi unrhyw beth arall y teimlwch y gallai fod angen i ni ei wybod.**
  Os yw bil yr angladd eisoes wedi ei dalu, defnyddiwch y gofod yma i roi manylion am yr arian rydych chi wedi ei ddefnyddio i dalu'r bil.

Rhan 11 I bobl sy'n llenwi'r ffurflen hon a'i llofnodi ar ran rhywun arall

Ydych chi wedi llenwi'r ffurflen hon ar ran rhywun arall?

Na ☐ Ewch i **Rhan 12**.

Ydw ☐ Dywedwch wrthym amdanoch eich hun.

Dywedwch wrthym pam rydych yn llenwi'r ffurflen hon a'i llofnodi ar ran rhywun arall.

Rwy'n anfon llythyr y mae'r cwsmer wedi'i lofnodi gyda'r ffurflen hon. Mae'r llythyr yn dweud wrthych eu bod yn cytuno i mi wneud y cais ar eu rhan. ☐ Nawr llofnodwch y ffurflen hon yn **Rhan 12**.

Fi yw eu penodai. ☐

Mae gennyf bŵer atwrnai. ☐

Enw llawn | Mr / Mrs / Miss / Ms

Dyddiad geni | / /

Cyfeiriad

Cod Post

Rhif ffôn | Cod Rhif

Beth yw'r rhif hwn?
Ticiwch

Cartref ☐ gwaith ☐ symudol ☐ ffacs ☐

Nawr llofnodwch y ffurflen hon yn **Rhan 12**.

Rhan 12 Datganiad

Rwyf yn deall y gellir dwyn achos neu gamau eraill yn fy erbyn os byddaf yn rhoi gwybodaeth sy'n anghywir neu'n anghyflawn yn fwriadol.
Rwyf yn datgan bod y wybodaeth a roddwyd gennyf ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred.
Dyma fy nghais am Daliad Angladd o'r Gronfa Gymdeithasol.

Llofnod

Dyddiad / /

Rhan 13 Beth i'w wneud nawr

- **Gwnewch yn siwr eich bod wedi gwneud popeth sydd rhaid i chi, a'ch bod yn anfon yr holl ddogfennau rydym wedi gofyn amdanynt. Defnyddiwch y rhestr wirio isod.**

Ydych chi wedi ateb yr holl gwestiynau sy'n berthnasol i chi? ☐

Ydych chi wedi llofnodi'r ffurflen hon a'i dyddio? ☐

Os yw bil y trefnydd angladdau gennych, ydych chi wedi ei anfon atom? ☐

Ni allwn dderbyn amcangyfrif o'r bil. Os nad yw'r bil gennych eto, anfonwch ef atom cyn gynted ag y gallwch.

Ydych chi wedi anfon ffurflen dull o dalu'r trefnydd angladdau atom, os rhoddir un i chi. ☐

Os yw'r bil eisoes wedi ei dalu, ydych chi wedi dweud wrthym am yr arian a ddefnyddiwyd gennych i dalu'r bil yn **Rhan 9** o'r ffurflen hon? ☐

Ydych chi wedi anfon unrhyw filiau neu dderbynebau eraill all fod gennych mewn cysylltiad â'r cais hwn? Er enghraifft, am bethau fel blodau. ☐

Os oedd gan y person a fu farw gynllun talu am angladd ymlaen llaw, ydych chi wedi anfon y dogfennau rydyn ni wedi gofyn amdanynt yn **nodyn 15** neu **16** o'r llyfryn nodiadau a ddaeth gyda'r pecyn cais hwn? ☐

Os ydych chi wedi gorfod talu am unrhyw ddogfennau i ryddhau arian y person a fu farw, ydych chi wedi anfon y bil neu'r dderbynneb atom? ☐

- **Anfonwch y ffurflen hon ac unrhyw beth rydym wedi gofyn amdanynt i'r Ganolfan Byd Gwaith. Mae'r rhif ffôn a'r cyfeiriad yn yr hysbyseb yn adran rhifau busnes y llyfr ffôn. Edrychwch o dan Jobcentre Plus.**

Rhan 14 Beth sy'n digwydd nesaf

Darllenwch **nodyn 19** yn y llyfryn nodiadau a ddaeth gyda'r pecyn cais hwn. Mae'n dweud wrthych sut y byddwn yn eich talu os oes gennych hawl i gael Taliad Angladd. Os nad oes gennych hawl i gael Taliad Angladd, byddwn yn ysgrifennu i ddweud wrthych pam.

A darllenwch **nodiadau 20** i **22** yn y llyfryn nodiadau sy'n dweud wrthych ynglŷn ag ad-dalu Taliad Angladd.

Gellir gwneud unrhyw daliad y gallwch ei gael o ganlyniad i'r cais hwn yn gynt

- os atebwch bob cwestiwn ar y ffurflen hon sy'n berthnasol i chi a'ch partner, os oes un gennych
- os anfonwch bob dogfen y gofynnwn amdani atom.

Os na allwch wneud hyn, cysylltwch â ni, ond gallai fod oedi â'r taliad y gallwch ei gael oherwydd y cais hwn.